

LEWIS, EVAN (1788? - 1864, gweinidog ymneilltuol

Enw: Evan Lewis
Dyddiad geni: 1788?
Dyddiad marw: 1864
Priod: Mary Lewis (née James Thomas)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog ymneilltuol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awduron: Evan David Jones, Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1788, yn ôl ei dystiolaeth ef ei hun, yn Rhiwspardun, Cwm Gwanas, Dolgellau, ond yr oedran a roddwyd yng nghofnod ei gladdu oedd 78 mlwydd. Magwyd Lewis ymysg y Crynwyr; pregethai ei dad gyda hwy, a chafodd yntau ei addysg yn nhy cwrdd y Crynwyr (Tabor yr Annibynwyr heddiw) yn Nhir Stent; cofnododd atgofion ei blentyndod ymhlith y Crynwyr. Gweler paragraffau olaf yr erthygl ar deuluoedd [Lewis ac Owen](#).

Symudodd i ogledd Ceredigion, lle y dywedir iddo ymuno â'r eglwys Fethodistaidd (Wesleiaidd) ieuanc yn Nhre'r ddôl. Erbyn 1819 yr oedd yn byw gyda'i wraig, Mary James Thomas, yn Heol y Porth Tywyll Bach, Aberystwyth, ac yn bregethwr lleyg gyda'r Methodistiaid (Wesleiaidd). Ordeiniwyd ef yng nghapel y Cilgwyn ger Llangybi yng Ngheredigion, 15 Hydref 1820, a threuliodd weddill ei oes yn weinidog ar yr hen eglwys Bresbyteraidd honno. Aethai adain Galфинаidd yr eglwys allan yn 1772 gan adael y fam eglwys i droedio llwybr canol rhwng Arminiaeth ac Ariaeth. Yn ôl Evan Lewis, dewiswyd ef yn weinidog am nad oedd fyfyrwr a wnai'r tro yn athrofa Bresbyteraidd Caerfyrddin. Yr [Athro David Lewis Jones](#) o'r coleg hwnnw a lywyddai'r cyfarfod ordeinio, ac yr oedd y gweinidogion a'i cynorthwyai naill ai yn Ariaid agored neu'n tueddu at Ariaeth. Hoffai'r eglwys athrawiaeth y Wesleiaid ond ni fynnai weinidogaeth deithiol. Y canlyniad fu na chydabuwyd Lewis gan y Wesle aid na'r Undodiaid. Mynnodd Wesleiaid y cylch bregethu mewn ty annedd, er bod croeso iddynt yn y Cilgwyn. Symudwyd yr achos i gapel newydd yn nes i'r pentref yn 1840, ac wedi marw Lewis aeth yr eglwys a'r capel i feddiant y Wesleiaid (1863 medd [Hugh Jones](#)). Ymsefydlodd Evan Lewis yn Olmarchisaf i ddechrau, ond erbyn 1826 yr oedd yn byw yn Llanllŷr. Pan fu farw ei wraig Mary, 13 Awst 1846, Pant-y-gwas yn Llanfihangel Ystrad oedd eu cartref, ac oddiyno y claddwyd yntau. Cofnodir ei farw, 28 Gorffennaf 1864, yng nghofrestr eglwys y Cilgwyn (' Rev. Evan Lewis Gwynhydog '). Claddwyd ef ym mynwent Llanfihangel 2 Awst, a chymerwyd plât ei arch i'w hongian ar ffrynt capel y Cilgwyn.

Gadawodd mewn llawysgrif gasgliad o draethodau o dan y teitl ' Dydd y Pethau Bychain ', hanes eglwys y Cilgwyn wedi ei seilio i raddau helaeth ar lyfr coll yr eglwys, a nifer o bregethau. Cyhoeddodd lyfryn - *Rhifyddiaeth yn Rhwyddach*, Rhan 1, Caerfyrddin, 1828, ond er iddo restru dros saith gant o danysgrifwyr nid oes gofnod am gyhoeddi un o'r pum rhan arall a arfaethasai. Tybir mai ef oedd cyfieithydd *Annerchiad at Rieni*, Llanrwst, 1831.

Awduron

Evan David Jones, (1903 - 1987)

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

NLW MSS, 2169-71 (peth defnydd hunanfywgraffiadol) 3505, 6763-5, 13531

llyfr eglwys y Cilgwyn (2) yng nghasgliad yr Hen Gapel, Tre'r ddôl, yng nghadw yn y Llyfrgell Genedlaethol

Bathafarn cylchgrawn hanes yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru, X, 17-18

Hugh Jones, *Hanes Wesleyaeth Gymreig* (1911–3), iii, 1289

Y Beiriniad, Ionawr 1863

Y Dysgedydd, 1884, 276

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20821130](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

